

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Pont Afon Dyfrdwy, Queensferry,
Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50
mya Dros Dro) 2018

The A494 Trunk Road (Dee
Bridge, Queensferry, Flintshire)
(Temporary 50 mph Speed Limit)
Order 2018

Gwnaed 19 Ionawr 2018

Made 19 January 2018

Yn dod i rym 22 Ionawr 2018

Coming into force 22 January 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the relevant length of the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of a danger to the public on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018.

1. This Order comes into force on 22 January 2018 and its title is The A494 Trunk Road (Dee Bridge, Queensferry, Flintshire) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(a) any vehicle being used by the emergency services; and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lloedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lloedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lloedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd yn Queensferry yn Sir y Fflint sy'n ymestyn o bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 1,170 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y Gyfnewidfa honno.

Atal Dros Dro

4. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cymhwys

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lloedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Restriction

3. No person shall drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the northbound carriageway of the trunk road at Queensferry in the County of Flintshire that extends from a point 325 metres north of the centre-point of Queensferry Interchange to a point 1,170 metres north of the centre-point of that Interchange.

Suspension

4. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Application

5.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

19 Ionawr 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

19 January 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (PONT
AFON DYFRDWY, QUEENSFERRY, SIR Y
FFLINT) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA
DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn oherwydd perygl tebygol i'r cyhoedd ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, ym Mhont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 50 mya dros dro ar hyd darn o gerbyttfordd tua'r gogledd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 325 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 1,170 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y Gyfnewidfa honno.

Disgwylir y daw'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei cylch, i rym am 00:01 o'r gloch ar 22 Ionawr 2018 ac y bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (DEE BRIDGE,
QUEENSFERRY, FLINTSHIRE) (TEMPORARY
50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary due to the likelihood of a danger to the public on or near the A494 trunk road at the Dee Bridge, Queensferry, Flintshire.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the length of the northbound carriageway of the A494 that extends from a point 325 metres north of the centre-point of Queensferry Interchange to a point 1,170 metres north of the centre-point of that Interchange.

The temporary restriction, which will be signed accordingly, is expected to come into force at 00:01 hours on 22 January 2018 and remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government